Cig, Pysgod a Dofednod

Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales

Cafodd chwyddiant effaith ar werthiant Cig, Pysgod a Dofednod, gydag effaith ar gig coch wrth i siopwyr brynu llai, ac yn llai aml. Mae Cig Iâr yn mynd yn groes i'r tuedd, wedi'i gefnogi gan gynigion mewn siopau yn gyrru gostyngiad mewn prisiau a chyfaint uwch.

Ar draws Prydain, mae twf mewn Cig, Pysgod a Dofednod wedi arafu wrth i ni symud oddi wrth gyfnod y Nadolig. Serch hynny, gyda chynigion am Bryd a Gwin yn y cartref gan nifer o adwerthwyr (Sant Ffolant, Blwyddyn Newydd Tsieineaidd), cafwyd cynnydd o 26% mewn prydau parod wedi'u hoeri (Cymru +15.7%).

Dim ond cig wedi'i brosesu a dofednod ffres sydd wedi gweld cynnydd dros y 12 wythnos ddiwethaf. Cig iâr oedd yn arwain y categori, gyda chig eidion, oen a moch yn gweld gostyngiad mewn cyfaint ar lefel Prydain. Mae pysgod oer yn parhau i weld gostyngiad wrth i chwyddiant effeithio ar y farchnad. Ond disgwylir i'r pwysau lacio wrth i'r cynnydd mewn prisiau arafu.

Esboniodd Nathan Ward, Cyfarwyddwr Uned Fusnes Cig, Pysgod a Dofednod Kantar Worldpanel: "Mae'r farchnad wedi arafu dros y pedair wythnos ddiwethaf, gyda siopwyr yn prynu llai o gig coch, yn llai aml. Prynwyd cig eidion ar 400,000 achlysur yn llai eleni, a chig oen ar 1.4m achlysur yn llai. Y symbyliad ar gyfer y gostyngiad yw aelwydydd incwm isel a'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan chwyddiant".

Dywedodd Ward: "Mae cig iâr yn gweld cynnydd mewn marchnadoedd ffres ac wedi'i brosesu. Gwelwyd miliwn yn fwy o ymweliadau lle prynwyd cig iâr eleni a 195,000 yn fwy o siopwyr. Coesau a brest cyw iâr sy'n gyrru'r twf, mae brest cyw iâr yn cael ei gefnogi mewn siopau gan 18% yn fwy o gynigion, wrth i ostyngiad mewn pris (i fyny 18%) a chynigion Y am £X (i fyny 19%) gynyddu dros y cyfnod. Mae coesau cyw iâr wedi gweld cefnogaeth debyg, gyda chyfaint ar gynnig arbennig i fyny 10%, gan helpu i arwain at 900,000 ymweliad yn rhagor eleni."

Mewn cyferbyniad i ddarlun Prydain, gwariodd siopwyr Cymru £160m ar Gig, Pysgod a Dofednod yn y 12 wythnos hyd at 25 Chwefror 2018, cynnydd o 7.4% mewn gwariant, wedi'i yrru gan siopwyr yn prynu'n amlach ac ar brisiau cyfartalog uwch. Mae cyfaint Cig, Pysgod a Dofednod yng Nghymru wedi cynyddu +5.4% dros yr un cofnod o 12 wythnos, gyda gwerthiant cig eidion a dofednod i fyny. Caiff llai ei brynu ar gynigion arbennig yng Nghymru, o'i gymharu â Phrydain.

Cig, Pysgod a Dofednod

Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales

Gwerthiant Cig, Pysgod a Dofednod Prydain	12 wythnos hyd at 25/02/18	Newid Blynyddol	12 wythnos hyd at 25/02/18	Newid Blynyddol
	£ miliwn	%	000 Tunnell	%
Cig a Dofednod Sylfaenol Ffres	**1478.0**	**-0.5**	**260.3**	**-0.8**
Cig Eidion	564.6	-1.3	71.7	-1.7
Cig Oen	136.5	-3.0	16.0	-72.0
Porc	176.4	1.6	37.3	-2.1
Cig Iâr	446.1	-0.8	114.0	0.9
Twrci	118.6	1.8	16.2	-1.0
Cig Coch Arall	7.2	32.0	1.4	63.4
Dofednod Arall	28.6	6.3	3.8	-2.4
Cig a Dofednod wedi'u Prosesu Ffres	**938.5**	**4.1**	**154.3**	**0.8**
Cig Moch	328.6	3.0	58.7	1.6
Selsig	163.9	3.6	34.1	-2.4
Byrger+Gril	52.8	-0.3	7.6	-2.2
Dofednod wedi'u Prosesu Ffres	393.3	5.9	53.9	2.4
Cig wedi'i Goginio a'i Sleisio	**467.7**	**2.2**	**49.8**	**-0.4**
Pysgod Oer	**458.5**	**2.2**	**37.0**	**-2.7**
Cynnyrch Gwerth Ychwanegol	122.6	-0.7	11.9	-1.8
Mewn Cytew	6.5	53.3	0.6	43.6
Mewn Briwsion	27.6	12.2	3.4	6.2
Naturiol	161.4	6.2	11.8	-2.8
Pysgod Cregyn	50.9	-11.0	4.1	-12.4
Wedi'u Mygu	89.6	2.5	5.2	-4.9